# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL- DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD LLUN, 14 GORFFENNAF AM 14:00

Presennol

S Maughan – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| MJ Williams | G Walter | P Baker | R Lynch |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol |

Gwahoddedigion

Y Cynghorydd Ian Spiller

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd Martin Williams – Buddiant Personol gan fod y Cyng Spiller yn aelod o’i grŵp gwleidyddol.

## 184. Cais am Oddefeb

<table>
<tr>
<td>Y Penderfyniad Wnaed</td>
<td>
Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i bwrpas oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau gais a dderbyniwyd am oddefeb arbennig i siarad yng nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Trelales.
Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y pwyllgor y gallent dderbyn sylwadau byr gan yr ymgeisydd neu y gallent fodloni ar gyfeirio at y papurau a gyflwynwyd i'r aelodau. Ychwanegodd, pe bai'r pwyllgor yn dewis derbyn sylwadau; y byddai'n ofynnol iddynt fod yn ffeithiol o ran y rhesymau a ddarperid.
Hysbysodd y Swyddog Monitro'r pwyllgor fod unigolyn wedi cysylltu â hi, ar y diwrnod y cynullwyd Cyfarfod y Pwyllgor Safonau i glywed y cais am oddefeb, a fyddai wedi gwrthwynebu'r cais pe bai proses wedi bod i dderbyn gwrthwynebiadau o'r fath. Roedd y gwrthwynebydd wedi cael ar ddeall nad oedd gan y pwyllgor broses i dderbyn gwrthwynebiadau dan y rheoliadau ac felly y byddent yn gwneud eu penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ganddynt o'u blaenau.
Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i wneud ei gyflwyniad gan ei hysbysu am y canllawiau angenrheidiol. Nododd yr ymgeisydd mai'r pwrpas dros ofyn am oddefeb oedd iddo allu siarad ar faterion a godai yn ystod trafodaethau yng Nghyngor Cymuned Trelales. Cyfeiriodd yn benodol at ddau bwynt:
<ul>
<li>Diweddariad yr oedd ef wedi ei gylchredeg i'r Cyngor yn dilyn cyfarfod corff llywodraethu'r ysgol, lle roedd wedi derbyn cadarnhad bod y corff llywodraethu yn hapus i symud ymlaen.</li>
<li>Trafodaeth ynghylch sefydliad nad oedd wedi cael ei ddosbarthu fel elusen ac felly nad oedd yn cwrdd â meini prawf y Cyngor ar gyfer derbyn rhoddion.</li>
</ul>
Dywedodd yr ymgeisydd fod angen egluro'r pwyntiau hyn yng nghofnodion Cyfarfod y Cyngor Cymuned ac roedd yn gofyn am oddefeb i ganiatáu iddo ddarparu gwybodaeth ar y ddau bwynt yma.
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor Safonau yn derbyn cais am oddefeb yn aml ac awgrymodd y dylid trefnu sesiwn ar wahân i roi cyfle i'r aelodau drafod y pwyntiau a godwyd gan yr ymgeisydd a'r cais a wnaed wedyn. Awgrymodd y gallent hysbysu'r ymgeisydd am eu penderfyniad ar ôl hynny.
Yna gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod am gyfnod byr, er mwyn i'r Pwyllgor allu gwneud penderfyniad ynghylch y cais. Ar ôl ailymgynnull,
PENDERFYNWYD : Gwnaeth y Pwyllgor benderfyniad unfrydol i ddyfarnu'r oddefeb ar gyfer y ddwy elfen a grybwyllwyd yn y cais fel y'u heglurwyd gan yr ymgeisydd. Dywedasant
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | mai ar gyfer y cyfarfod ar yr 17eg o Orffennaf yn benodol yn unig yr oedd yr oddefeb yn ddilys a hefyd nad oedd yn gorfodi Cyngor Trelales i ganiatáu i'r ymgeisydd siarad ar y pwyntiau a grybwyllwyd. Dywedodd y cadeirydd mai protocolau a gweithdrefnau'r cyngor lleol oedd yn penderfynu sut y byddent yn gweithredu ar y penderfyniad hwnnw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14/07/2025 |

## 185. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14/07/2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y dolenni canlynol:

Rhan 1
Rhan 2

Daeth y cyfarfod i ben am 14:20